**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**—**
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Ceri Cunnington
Cwmni Bro Ffestiniog

3 Hydref 2024

Annwyl Ceri,

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Ymchwiliad i'r Economi Sylfaenol**


Diolch i chi am ymuno â'n cyfarfod ar 18 Medi i roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i'r Economi Sylfaenol.

Yn dilyn y sesiwn, cytunwyd i ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â phwyntiau nad oedd gennym amser i ymdrin â nhw yn ystod y cyfarfod. Gan hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau a ganlyn:

- Yn seiliedig ar eich profiad, pa mor llwyddiannus y mae Llywodraeth Cymru wedi bod o ran datblygu a chyflawni polisi economi sylfaenol? A fyddech cystal â nodi'r rhesymau dros y farn hon?
- Sut ydych wedi gwerthuso effaith eich mentrau, a sut y mae hyn wedi eich helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd wedi codi?
- O ran caffael, a allwch daflu unrhyw oleuni ar sut, yn benodol, y mae bwyd yn cael ei gaffael yn eich ardal, er enghraifft ar gyfer cartrefi gofal ac ysgolion?

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,



Paul Davies AS
Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

Senedd Cymru
Welsh Parliament